# Digartrefedd Statudol – Newidiadau deddfwriaethol o 27 Ebrill 2015

Daeth Deddf Tai (Cymru) yn gyfraith yng Nghymru ar 17 Medi 2014, ac mae'n cynnwys nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth digartrefedd, sy'n anelu at leihau lefelau digartrefedd, drwy sicrhau bod atal yn ganolog i ddyletswyddau awdurdod lleol i helpu pobl mewn perygl o fod yn ddigartref. Cafodd y ddeddfwriaeth newydd ei chyflwyno ar 27 Ebrill 2015, ac mae'n disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol, Rhan VII Deddf Tai 1996, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 1997.

Mae'r data a gasglwyd a'i gyhoeddi ar ddigartrefedd statudol o fis Ebrill 2015 ymlaen wedi newid i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Nid oes modd felly ei gymharu â'r hyn a gasglwyd ac a gyhoeddwyd o dan y ddeddfwriaeth flaenorol.

Roedd y data a gasglwyd ac a gyhoeddwyd cyn Ebrill 2015 yn cynnwys y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, ac mae'n seiliedig ar yr aelwydydd hynny oedd yn cael eu derbyn fel rhai digartref, â hawl ganddynt i dderbyn y prif ddyletswydd digartrefedd (gan bod yr ymgeisydd yn gymwys am gymorth, yn anfwriadol ddigartref ac o fewn grŵp angen sy'n flaenoriaeth) a'r rhai nad oedd ganddynt hawl am hynny.

Pan oedd aelwyd yn cael ei derbyn fel aelwyd ddigartref, a bod ganddi yr hawl i'r dyletswydd digartrefedd, roedd yn rhaid i'r awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael. Os oedd aelwyd yn fwriadol ddigartref neu nad oedd mewn angen a ystyriwyd yn flaenoriaeth, yna byddai'n rhaid i'r awdurdod wneud asesiad o'r angen am dŷ, a rhoi cyngor a chymorth i'w helpu i ddod o hyd i lety.

O fis Ebrill 2015, mae'r ffurflen digartrefedd statudol yn casglu data gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd newydd, a cheir cyngor ar y dyletswyddau hynny yn y Mae'r cod canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd 2015.

Mae'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd yn canolbwyntio ar helpu pob aelwyd sy'n gymwys naill ai i osgoi cyfnod o fod yn ddigartref neu i ddod â'r cyfnod hwnnw i ben. Nid yw'n bosib cymharu'r data gyda data a gasglwyd cyn hyn ar ddigartrefedd statudol, gan y byddai'r awdurdodau lleol bellach yn darparu ystadegau ar yr achosion hynny ble y mae digartrefedd wedi'i atal yn llwyddiannus[1] neu ble y llwyddwyd i ddod â'r digartrefedd i ben[2].

Byddai'r aelwydydd sydd â hawl i'r prif ddyletswydd digartrefedd i sicrhau llety o dan y ddeddfwriaeth newydd (Adran 75 Deddf Tai (Cymru) 2014) yn bodloni yr un

[1] 'Atal Digartrefedd' yw pan fydd yr awdurdod lleol yn cymeryd camau positif i ddarparu cymorth tai i rhywun sy'n ystyried eu hunain mewn perygl o fod yn ddigartref yn y dyfodol agos, ac o ganlyniad gall y person naill ai aros yn eu llety presennol neu dderbyn llety arall, a fyddai'n cynnig ateb am y 6 mis nesaf o leiaf.

[2] Ni ellir cymeryd camau positif i atal digartrefedd unwaith y mae awdurdod yn fodlon bod rhywun yn ddigartref (er enghraifft, mae'r awdurdod wedi hysbysu'r person o benderfyniad o dan adran 73 eu bod yn ddigartref). Fodd bynnag, yn dilyn hysbysiad o dan Adran 73 bod ymgeisydd yn ddigartref, gellir cymeryd camau positif i ddod â digartrefedd i ben os yw'r ymgeisydd yn gymwys ac yn ddigartref.

meini prawf â'r rhai hynny o dan y ddeddfwriaeth flaenorol (Adran 193, Rhan VII Deddf Tai 1996). Fodd bynnag, ni fyddai modd cymharu'r data. Y rheswm am hyn yw, o dan y ddeddfwriaeth newydd, mae'n bosib y byddai'r digartrefedd wedi ei ddatrys drwy ymyrryd cynt mewn rhai achosion, ac felly byddai'r nifer ar y ffurflen yn is na fyddai wedi ei nodi ar gyfer y ddeddfwriaeth flaenorol.

Mae newid pellach o dan y ddeddfwriaeth newydd, a gyflwynwyd ar 27 Ebrill 2015, yn cyfeirio at nifer y dyddiau a ddefnyddir fel sbardun i'r awdurdod gynnig cymorth. O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, roedd y sbardun ar gyfer cymorth i'r digartref pan oedd person o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 28 niwrnod. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn y cyfnod o fod o dan fygythiad o fod yn ddigartref i 56 niwrnod. Gallai'r newid hwn gael effaith ar y niferoedd cyffredinol a nodir ar y ffurflenni casglu data digartrefedd o fis Ebrill 2015 ymlaen. Cyn hyn, ni fyddai'r achosion hynny oedd yn cael eu bygwth â digartrefedd y tu hwnt i'r trothwy 28 niwrnod yn cael eu cofnodi gan yr awdurdodau lleol, er y byddent o bosib wedi derbyn cymorth cyffredinol ganddynt.

Roedd y data a gasglwyd o dan y ddeddfwriaeth flaenorol yn cynnwys gwybodaeth am ddefnyddio llety dros dro ar gyfer aelwydydd digartref. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hefyd yn cynnwys defnyddio llety dros dro; fodd bynnag, mae wedi arwain at newidiadau yn yr achosion hynny sy'n gymwys am lety dros dro, gan ddileu y flaenoriaeth awtomatig i garcharorion. Felly, o'r chwarter Ebrill i Fehefin 2015 ymlaen, nid yw'n bosib cymharu'r data sy'n cael ei gyhoeddi am aelwydydd digartref mewn llety dros dro gyda'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Mae rhagor o wybodaeth ar y ddeddfwriaeth digartrefedd newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar y ddolen ganlynol:
http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/new-homelessness-legislation/?skip=1&lang=cy

Mae copïau o'r ffurflenni casglu data ar ddigartrefedd statudol ar gael ar y ddolen ganlynol:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/homelessness-data-collection/?lang=cy

Cynhyrchwyd gan: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru
Adolygwyd ddiwethaf: Medi 2015

## Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5055
Ebost: ystadegau.tai@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/